**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Iau, 22 Mai 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Gwener, 23 Mai 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Llun, 2 Mehefin 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mawrth, 3 Mehefin 2025.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd), Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, R. Llewelyn Jones, Sonia Williams (Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)

(10:00 y. b. tan 10:40 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen** |

| | |
|---|---|
| | **Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mehefin 2025 i Ionawr 2026 gyda'r un newid a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad Ymgysylltu – Darpariaeth Addysg ôl-16**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen yng ngloeuni'r adborth o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus -—**<br>• **Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol ac,**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i baratoi cynllun strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol a fydd yn ceisio mynd i'r afael â, neu lliniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ôl-16.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu darpariaeth ôl-16 ar hyn o bryd, cryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr, a gwella cynaliadwyedd darpariaeth ôl-16** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Datganiad o ddiddordeb personol yn unig gan y Cynghorydd Carwyn Jones** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |

| | |
|---|---|
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo'r cynnig i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol uwchradd newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed," ac**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd presennol a hirdymor addysg uwchradd yng Nghaergybi ac Ynys Cybi, a sicrhau bod digon o leoedd uwchradd i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |